

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Dyffryn Mynwy, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
Ward Trefynwy

Dyddiad yr arolygiad: 26 Mehefin
2017

Dyddiad cyhoeddi: 27 Medi 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ...	29
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	30
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	31

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru'n derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: mae profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Gonestrwydd: rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn yr ydym yn ei weld
- Cydweithredu: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: rydym yn gweithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gyfatebol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Rhoi sicrwydd:

Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Dyffryn Mynwy, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 26 Mehefin 2017. Ymwelwyd â Ward Trefynwy yn ystod yr arolygiad hwn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwysdau arolygydd AGIC (arweiniwyd yr arolygiad gan un ohonynt), un adolygydd cymheiriaid clinigol, ac un adolygydd lleyg.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd yr ydym yn cynnal arolygiadau ysbyty yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuwyd fod y gymuned leol a wasanaethir gan gyfleuster iechyd a ward cleifion mewnol Dyffryn Mynwy yn elwa o wasanaethau a ddarperir gan dîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig sydd wedi'i hen sefydlu ac a oedd yn chwilio'n gyson am ffyrdd o wella'r hyn y maent yn ei wneud i hybu llesiant pobl.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn llawn canmoliaeth i'r staff a oedd yn gysylltiedig â'u gofal a'u triniaeth
- Cymeradwywyd tîm y ward am yr ymdrechion a oedd yn cael eu gwneud i annog cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, cyn belled ag yr oedd eu cyflwr gofal iechyd yn caniatáu
- Roedd cleifion yn cael eu cynorthwyo a'u monitro'n briodol yn ystod amser bwyd
- Canfuwyd tystiolaeth gennym o reolaeth ac arweinyddiaeth gyson ar Ward Trefynwy a chan y tîm gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ehangach yn y cyfleuster

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Elfennau o drefniadau atal a rheoli heintiau
- Agweddau ar reoli meddyginiaethau
- Cadw cofnodion i ddangos (yn gywir) pa asesiadau, gofal a chymorth y mae'r cleifion yn eu derbyn

Mae manylion gwelliannau eraill a nodwyd ar gael yn Atodiad Cyr adroddiad hwn.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 1 Hydref 2009 ac mae'n cynnwys Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen a de Powys. Mae'r bwrdd iechyd yn gwasanaethu poblogaeth amcangyfrifedig o fwy na 639,000 – tua 21% o gyfanswm poblogaeth Cymru.

Ceir dau ysbyty cyffredinol dosbarth mawr yn y bwrdd iechyd –Ysbyty Brenhinol Gwent (yng Nghasnewydd) ac Ysbyty Nevill Hall (yn y Fenni) – a dau ysbyty cyffredinol lleol arall: Ysbyty Aneurin Bevan (yng Nglynebwy) ac Ysbyty Ystrad Fawr (yn Ystradmynach). Cefnogir y rhain gan rwydwaith o ysbytai cymuned ac iechyd meddwl a safleoedd gofal dydd.

O 2006, canolbwyntiwyd y ddarpariaeth iechyd yn Nhrefynwy yng nghyfleuster/ysbyty iechyd a gofal cymdeithasol Integredig Dyffryn Mynwy. Datblygwyd y gwasanaeth mewn partneriaeth rhwng y bwrdd iechyd, Cyngor Sir Fynwy a sefydliadau gwirfoddol lleol.

Darperir amrywiaeth eang o glinigau/gwasanaethau yn y cyfleuster, lle ceir 19 o welyau cleifion mewnol hefyd (Ward Trefynwy). Mae'r ward yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion sy'n gwella ar ôl llawdriniaeth, i'r rheini sydd angen gwasanaethau gofal lliniarol, ac i bobl sy'n disgwyl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty i'w cartrefi eu hunain yn y gymuned, neu i leoliadau preswyl.

Caiff y ward ei rhedeg gan dîm o nyrsys wedi'u cynorthwyo gan weithwyr cymdeithasol, nyrsys gofal lliniarol arbenigol, nyrsys iechyd meddwl cofrestredig, therapyddion galwedigaethol a ffisiotherapyddion. Darperir cymorth meddygol gan feddygon teulu o ddwy feddygfa leol, sy'n ymweld â'r ward yn feunyddiol ar sail rota.

Roedd 19 o gleifion yn derbyn gofal ar Ward Trefynwy ar ddiwrnod ein harolygiad.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Cawsom nifer o sylwadau cadarnhaol a chanmoliaeth gan gleifion am y ffordd yr oedd y staff yn darparu gofal, triniaeth a chymorth iddynt. Canfuwyd gennym hefyd bod y staff yn parchu dewisiadau'r cleifion ac yn eu helpu i fod mor annibynnol â phosibl.

Canfuwyd bod y gymuned leol a wasanaethir gan gyfleuster iechyd a ward cleifion mewnol Dyffryn Mynwy yn elwa o wasanaethau a ddarperir gan dîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n chwilio'n gyson am ffyrdd o wella'r hyn y maent yn ei wneud i hybu llesiant pobl.

Dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion a gofalmwyr yn ystod yr arolygiad i ganfod eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o bedwar. Roedd sylwadau'r cleifion am eu gofal, y staff ac amgylchedd y ward yn cynnwys y canlynol:

'Glân a thaclus iawn'

'Rhagorol. Gwych, ac yn eich trin gyda charedigrwydd'

'Caredig iawn, yn dod ag unrhyw beth sydd ei angen arnoch'

'Clên iawn a pharod eu cymwynas'

Cawsom drafodaethau hefyd gyda phedwar claf, a ddywedodd wrthym eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am eu gofal a'u triniaeth barhaus a bod eu holl anghenion yn cael eu diwallu. Derbyniwyd llawer o sylwadau cadarnhaol gennym hefyd am y ffaith fod y staff yn garedig ac yn foesgar, yn gwrando arnynt, a bob amser yn hapus i helpu.

Cadw'n iach

Gwelsom fod amrywiaeth o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion a'u perthnasau fel ffordd o hybu iechyd a llesiant da. Hefyd, roedd amrywiaeth o daflenni cyngor/gwybodaeth gofal iechydyn y Gymraeg a'r Saesneg ar gael i

bobl fynd gyda nhw i gyfeirio atynt yn y dyfodol. Roedd hyn yn golygu bod y ward yn rhoi pwyslais ar helpu cleifion a'u teuluoedd i ddeall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Cynorthwywyd pobl i wneud penderfyniadau am eu hiechyd a'u trefniadau gofal yn y dyfodol, fel y nodir gan y cleifion.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff yn gwisgo ac yn tynnu menig a dillad diogelwch personol eraill ar adegau priodol pan oeddent yn darparu gofal i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys achlysuron pan oedd angen iddynt gael gwared ar wastraff a gynhyrchwyd yn y ward. Gwelsom hefyd staff yn defnyddio hylif diheintio dwylo yn rheolaidd.

Gofal ag urddas

Clywsom y staff yn siarad gyda chleifion mewn ffordd garedig a chwrtais trwy gydol ein hymweliad a gwelsom fod llenni wedi eu tynnu o amgylch gwelyau cleifion ar adegau pan oedd gofal yn cael ei ddarparu. Roedd drysau ystafelloedd cleifion unigol hefyd ar gau ar adegau o'r fath. Hefyd, dywedodd cleifion wrthym eu bod bob amser yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Gwelsom hefyd aelod o staff yn mynd at un claf (a oedd yn symud o gwmpas y ward) cyn cynnig a darparu cymorth mewn ffordd ofalgar.

Roedd y staff yn siarad gyda chleifion yn dawel ar yr erchwyn, a oedd yn sicrhau bod y posibilrwydd y byddai sgysiau cyfrinachol a sensitif yn cael eu clywed gan bobl eraill cyn lleied â phosibl.

Roedd y toiledau wedi eu nodi'n eglur er mwyn helpu i bobl ddod o hyd iddynt ar y ward a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r cyfleusterau hynny yn ôl yr angen. Roedd modd cloi'r toiledau i hybu preifatrwydd ac urddas.

Roedd yn ymddangos bod yr holl gleifion yn derbyn gofal da; roedd nifer o unigolion yn gwisgo eu dillad dydd eu hunain, yn hytrach na gwisg nos, yn unol â'u dymuniadau personol.

Roedd stociau digonol o ddillad gwely a chlustogau i hybu cysur ac urddas y cleifion.

Gwybodaeth cleifion

Roedd yr holl arwyddion ar y ward yn hawdd i'w darllen (mewn llythrennau mawr) ac yn aml wedi eu hategu gan luniau i gynorthwyo'r cleifion ac ymwelwyr i ganfod eu ffordd o gwmpas.

Roedd gwybodaeth eglur wedi ei harddangos ar hysbysfyrddau er mwyn helpu pobl i ddeall sut i godi unrhyw bryderon/cwynion am wasanaethau GIG. Gwelsom hefyd wybodaeth wedi ei harddangos am agweddau ar ofal a thriniaeth a ddarperir ar y ward i gynorthwyo cleifion a'u teuluoedd. Roedd hynny'n golygu bod tîm y ward yn rhoi pwyslais ar sicrhau bod gan bobl lais a'u bod wedi eu grymuso i wneud penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu bywydau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Canfuwyd gennym fod y staff yn siarad gyda'r cleifion mewn ffordd a oedd yn dangos parch ac yn briodol i'w hoeddrannau; roedd sgysiau'n ddifffwdan ac yn cyd-fynd â gallu pobl i gyfathrebu. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i ffyrdd o siarad ag unigolion a oedd wedi nodi anawsterau'n gysylltiedig â cholled cof byrdymor.

Gofal amserol

Arweiniodd sgysiau gyda staff gwaith cymdeithasol (ar Ward Trefynwy) at ddisgrifiad manwl o'r ymdrechion a wneir i gynorthwyo cleifion sy'n derbyn gofal ac i sicrhau bod eu rhyddhad o'r ward yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'u hanghenion.

Hefyd, disgrifiodd y staff y system mynediad cyflym sydd ar waith i gael cymorth ar gyfer cleifion â phroblemau iechyd meddwl gan weithwyr proffesiynol priodol.

Datgelodd trafodaethau gydag aelod o staff wedi'i leoli yng nghyfleuster Dyffryn Mynwy fod gan bobl yn y gymuned leol fynediad at wasanaeth brysennu dros y ffôn (a adnabyddir ac a hysbysebir fel y 'bowlen bysgod'). Gweithredwyd y gwasanaeth hwn gan staff iechyd a gofal cymdeithasol integredig a oedd yn gwrando ar bryderon/problemau iechyd pob galwr. Roedd pobl yn cael eu cyfeirio wedyn at y gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol mwyaf priodol yn brydlon. Fe'n hysbyswyd hefyd y gellid gwneud trefniadau prydlon i bobl gael eu hasesu/eu gweld gan therapyddion neu weithwyr cymdeithasol, neu pa un a oedd angen mynd i feddygfa deulu neu'r ysbyty. Ystyriwyd bod gwasanaeth o'r fath yn arfer da ac fe'i cymeradwywyd gan y tîm arolygu.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod amrywiaeth o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cymryd rhan yn y gwaith o gynorthwyo'r cleifion trwy eu taith glinigol gyda'r nod o atal oediadau cyn eu rhyddhau o'r ysbyty pryd bynnag yr oedd hynny'n bosibl. Roedd y tîm arolygu a'r staff GIG dan sylw o'r farn bod cysylltiadau rhyng-broffesiwn o'r fath yn effeithiol iawn. Roedd hefyd yn amlwg bod cleifion a'u teuluoedd yn cael eu galluogi i gymryd cymaint o ran â phosibl ym mhob penderfyniad am ofal parhaus.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Datgelodd ein harchwiliad o asesiadau gofal ac anghenion tri o gleifion nad oeddent wedi eu dyddio bob amser, nac wedi eu cwblhau'n llawn wrth dderbyn y claf i'r ward, neu yn ystod y tri diwrnod dilynol. Hefyd, nid oedd asesiadau risg a gwblhawyd bob amser yn arwain at gynllun gofal fel sy'n ofynnol ac nid oedd un cynllun gofal codi a chario (symud) wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn dirywiad i iechyd corfforol y claf.

Gwelsom fod cynlluniau gofal yn cynnwys rhywfaint o gyfeiriadau at annibyniaeth unigolion ac roedd ymdrechion yn cael eu gwneud ar lafar ar ddechrau pob sifft ward i werthuso effeithiolrwydd gofal a chymorth i gleifion. Roedd tystiolaeth hefyd o gyfraniad amlddisgyblaeth at ofal cleifion. Fodd bynnag, roedd trafodaethau gyda nyrsys cofrestredig yn awgrymu eu bod yn rhoi pwyslais ar ddod i adnabod eu cleifion, bod cynlluniau ar gyfer rhyddhau yn cael eu gwneud yn gynnar, a bod sgysiau priodol yn cael eu cynnal gyda chleifion neu eu perthnasau/gofalwyr am agweddau hynod sensitif ar y llwybr gofal (fel trefniadau 'Peidiwch â Dadebru').

Arweiniodd sgysiau gyda chleifion at nifer o sylwadau cadarnhaol ar y ffyrdd yr oeddent yn cael eu cynorthwyo i symud o gwmpas y ward gan staff ffisiotherapi, a oedd yn cynyddu lefel eu hannibyniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda nifer a mathau'r gweithgareddau cymdeithasol/hamdden a oedd ar gael iddynt. Roedd y rhain ar ffurf y teledu, llyfrau, amser darllen a rennir, a chyfleoedd i siarad gyda'r staff. Fe'n hysbyswyd hefyd faint yr oedd y cleifion yn mwynhau ymweliadau wythnosol gan gi o'r enw Ruby trwy sefydliad o'r enw Therapy Dogs Nationwide a bod triniwr gwallt ar gael i'r cleifion bob dydd Mercher. Canmolwyd tîm y ward am eu hymdrechion i annog y cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, cyn belled ag yr oedd eu cyflyrau iechyd yn caniatáu.

Roedd gan yr holl gleifion fynediad at seinydd galw nyrsys i'w helpu i ofyn am gymorth yn annibynnol yn ystod y dydd a'r nos.

Cynhaliwyd trafodaethau gennym gyda gwirfoddolwr o'r gaplaniaeth, a oedd yn ymweld â chleifion unwaith yr wythnos yn unol â dymuniadau unigolion. Dywedodd y gwirfoddolwr wrthym y gallai gyfleu wedyn eu ceisiadau am gymun a chymorth crefyddol/anghrefyddol arall i offeiriad priodol, yn ôl ceisiadau'r cleifion.

Hawliau pobl

Canfuwyd gennym fod pobl yn cael eu hannog i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau trwy'r ddarpariaeth o oriau ymweld hyblyg a chyfleusterau ar gyfer sgysiau preifat.

Canfuwyd gennym hefyd bod y staff yn gwneud pob ymdrech i gyfathrebu â theuluoedd yn unol â dymuniadau'r cleifion.

Gwranddo ar adborth a dysgu ohono

Roeddem yn fodlon bod trefniadau Cymru gyfan ar gyfer ymateb i bryderon a'u rheoli (o'r enw Gweithio i Wella) yn cael eu dilyn fel sy'n ofynnol. Fe'n hysbyswyd hefyd bod adborth cleifion wedi cael ei gasglu'n fisol yn flaenorol, ond bod hyn wedi newid i ddwywaith y mis erbyn hyn, a bodllyfr ymwelwyr yn mynd i gael ei gyflwyno yn y ward i alluogi safbwyntiau a sylwadau mwy rheolaidd gan ymwelwyr.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y gwasanaeth yn ystyried iechyd, diogelwch a lles y cleifion a'i staff fel blaenoriaeth. Roedd hyn oherwydd i ni siarad â nifer fawr o staff ac archwilio'r prosesau a oedd ar waith i gynorthwyo'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol gan ganfod bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i wella ansawdd gwasanaethau.

Roedd gwelliannau a nodwyd yn yr arolygiad hwn yn ymwneud ag agweddau ar gyfathrebu rhwng y bwrdd iechyd a staff y ward, atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, a chadw cofnodion.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelwyd yn eglur o archwilio nodiadau tri o gleifion fod camau priodol a phrydlon wedi cael eu cymryd a'u cofnodi gan staff y ward ar adegau pan oedd eu cyflwr corfforol wedi dirywio.

Roedd cyfeiriadau da at y ward yng nghyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol Dyffryn Mynwy, a gallai pobl gael mynediad trwy risiau neu lifft o'r llawr daear i'r ward ar y llawr cyntaf. Canfuwyd gennym hefyd bod mynediad priodol ar gyfer pobl ag anawsterau symud, gan fod cyfleusterau i bobl anabl ar gael y tu mewn i'r adeilad.

Roedd amgylchedd y ward wedi ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn amlwg yn lân. Roedd yn ymddangos bod yr holl offer a dodrefn yn gweithio'n iawn ac mewn cyflwr da.

Roedd gan gleifion a oedd yn derbyn gofal fynediad at gyfleusterau cawod/ymolchi a chegin yn ogystal â lolfa/man cymunedol mawr wedi'i addurno'n dda, yr oeddent yn cael eu hannog i'w ddefnyddio yn ystod amser bwyd neu at ddiben gweithgareddau cymdeithasol/cyfarfod â'u teuluoedd/ymwelwyr.

Canfuwyd gennym fod trolïau a chadeiriau olwyn yn cael eu storio yn un gornel o brif goridor y ward, oherwydd lle storio cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r coridor yn rhydd o beryglon baglu.

Dangosodd staff a siaradodd â ni fod ganddynt ddealltwriaeth eglur o sut i hysbysu am unrhyw ddigwyddiadau clinigol andwyol. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt y byddent yn croesawu'r cyfle i well adborth ar ôl hysbysu am ddigwyddiadau o'r fath, fel y gallent ddysgu o'r broses ymchwilio.

Darparwyd copi cyfredol ar ein cyfer o'r asesiad risg tân sy'n gysylltiedig â chyfleuster iechyd a gofal cymdeithasol Dyffryn Mynwy a'r ward llawr cyntaf, dyddiedig 31 Mawrth 2017. Roedd hwn yn cynnwys manylion y gwelliannau a nodwyd ynghyd ag enwau unigolion a oedd yn gyfrifol am gymryd y camau gofynnol.

Roedd yr asesiad risg tân a'r polisi iechyd a diogelwch hefyd yn cyfeirio at y pwyslais a roddir gan y bwrdd iechyd a staff gwasanaeth ar gydymffurfiaid â deddfwriaeth safleoedd di-fwg Cymru gyfan.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau y dilynir arfer gorau wrth reoli a lliniaru risgiau yn y dyfodol. Mae hyn mewn ymateb i sylwadau'r staff ar yr angen am well adborth yn dilyn digwyddiadau clinigol neu bryderon/cwynion.

Atal niwed pwyso a meinwe

Gwelsom fod cynlluniau gofal safonol/a argraffwyd ymlaen llaw ar waith ar gyfer cleifion a oedd mewn perygl o ddatblygu niwed i'r croen oherwydd eu statws iechyd corfforol/symudedd cyfyngedig. Fodd bynnag, roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys diffyg manylion ac nid oeddent bob amser yn cael eu diwygio i adlewyrchu anghenion unigol cleifion. Hefyd, lle'r oedd asesiadau risg wedi cael eu cwblhau a chatau wedi eu hamlygu, nid oeddem yn gallu cadarnhau bod mesurau angenrheidiol wedi cael eu cymryd. Yn fwy penodol, roedd cynnwys y tri chofnod cleifion yn dangos:

- Cofnodi anghyson o asesiadau risg wlsrau pwysoyn y ddwy ffeil ar wahân a gedwir ar gyfer pob claf. Roedd hyn yn golygu bod potensial o gamddealltwriaeth o ran darparu gofal.

- Roedd cynllun clwyfau ar waith ar gyfer un claf a oedd ag wiser pwyso cyn cyrraedd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gynllun atal niwed pwyso yn ei nodiadau. Roedd hyn yn golygu efallai na fydd agweddau ar ofal croen cleifion yn cael sylw, a allai arwain at niwed pellach i'r croen.
- Nid oedd gwybodaeth gofal croen (bwndel) wedi ei chwblhau'n llawn (un enghraifft). Nid oedd hyn yn gynorthwyol o ran llywio'r staff i ddarparu gofal.
- Roedd matres gwely cyffredin wedi'i osod, pan oedd yr asesiad risg wedi amlygu'r angen am fatres lleddfu pwysau.
- Roedd nodiadau dau o gleifion yn dynodi y dylent gael eu cynorthwyo i newid eu lleoliad bob dwy awr. Fodd bynnag, nid oedd y siart gofnodi berthnasol wedi cael ei chwblhau i wirio bod hyn wedi cael ei wneud.

Tynnwyd sylw tîm y ward at y materion darparu gwasanaeth uchod yn ystod ein hymweliad. Rhoddodd y sgysiaid a ddilynodd sicrwydd llafar fod gofal manau pwyso yn cael ei ddarparu fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, roedd dwy ffeil ofal yn cael eu defnyddio ar gyfer pob claf (un yn cael ei chadw yn swyddfa'r nyrsys a'r llall ger yr erchwyn). Roedd potensial y byddai hyn yn creu dryswch ymhlith tîm y ward o ran darparu gofal a chymorth i gleifion.

(Gweler yr hyn y mae angen ei wella o dan y pennawd 'Cadw cofnodion' ar dudalennau 20–1.)

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC ar y camau a gymerwyd/i'w cymryd o ran atal a rheoli niwed meinwe yng nghyswllt cleifion. Mae hyn yn ymwneud â'r pwyntiau a amlygir ar dudalennau 15 ac 16 yr adroddiad hwn.

Atal cwmpau

Canfuwyd nifer o anghysondebau gennym o ran defnydd a chofnodi asesiadau risg a chynlluniau gofal cleifion o ran yr agwedd hon ar ofal. Hefyd, nid oedd y ffordd yr oedd rhai o'r dogfennau hynny wedi'u ffeilio yn ei gwneud yn hawdd i'r staff ddod o hyd i'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i ddarparu gofal a chymorth.

(Gweler yr hyn y mae angen ei wella o dan y pennawd 'Cadw cofnodion' ar dudalennau 20–1.)

Gwelsom fod ffrâm gerdded yr oedd un claf ei hangen wedi ei lleoli y tu hwnt i'w gyrraedd, a oedd yn cynyddu'r perygl y byddai'n cwmpo. Rhoddwyd sylw i'r mater hwn ar adeg ei ddarganfod.

Gwelsom hefyd ddefnydd da o gymorth/rhybudd atal cwmpau. Roedd y darn hwn o offer yn galluogi'r staff i gofnodi neges llais, a fyddai'n cael ei chlywed gan y claf ar adegau pan oedd yn ceisio codi o'i gadair freichiau heb y cymorth angenrheidiol. Roedd yr offer yn cael eudefnio ar adeg ein hymweliad, gyda'r claf yn ymateb yn dda iawn i'r cymhelliad llafar nifer o weithiau, a oedd yn ei atal rhag cwmpo.

Roedd polisi cyfredol ar waith o ran atal a rheoli cwmpau mewn mannau i gleifion mewnol. Gwnaed hwn ar gael gan y bwrdd iechyd i staff ar Ward Trefynwy yn brydlon (Mawrth 2017), i gynorthwyo'r staff yn eu gwaith.

Atal a rheoli heintiau

Archwiliwyd nifer o gomodau gennym ar y ward gan ganfod fod pob un yn amlwg yn lân. Fodd bynnag, nid oedd y staff wedi rhoi'r label gofynnol i ddynodi bod y comodau wedi cael eu glanhau. Gallai hyn fod wedi arwain at ddryswch ymhlith y tîm ynghylch pa un a oedd offer yn barod i gleifion eudefnio. Tynnwyd sylw'r staff at y mater hwn yn ystod yr arolygiad.

Datgelodd sgysiau gydag aelod o'r staff cadw tŷ fod ei ddiwrnod gwaith yn cynnwys dyletswyddau glanhau yn bennaf, er ei fod hefyd yn gyfrifol am ddarparu diodydd a byrbrydau i'r cleifion, yn ogystal â gweini prif brydau. Fe'n hysbyswyd am y trefniadau sydd ar waith i newid rhywfaint o ddillad amddiffynnol personol ar gyfer gwahanol ddyletswyddau yn unol â chanllawiau atal a rheoli heintiau cyfredol. Fe'n hysbyswyd hefyd bod gan weithwyr cymorth gofal iechyd (a phorthorion weithiau) ddyletswyddau glanhau i sicrhau bod yr holl dasgau yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym ei bod yn aml yn anodd cyflawni eu holl ddyletswyddau yn feunyddiol oherwydd pwysau amser. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ystyried y defnydd o staff cadw tŷ a'r oriau a neilltuir ar gyfer dyletswyddau glanhau felly.

Cynigiodd y cleifion a siaradodd â ni sylwadau cadarnhaol iawn am lendid a chyflwyniad amgylchedd y ward. Canmolwyd y staff cadw tŷ gennym hefyd am eu cyfraniad at gyflwyniad hylan yr amgylchedd ar adeg yr arolygiad.

Roedd gan y staff fynediad rhwydd at bolisi atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd. Roedd hefyd yn amlwg bod ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau

atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw amserlenni glanhau ysgrifenedig/wedi'u cytuno ar waith i lywio'r staff cadw tŷ o ran yr hyn yr oedd angen ei wneud a pha mor aml i sicrhau bod yr amgylchedd clinigol mor lân â phosibl.

Nid oedd cwpwrdd storio'r gweithiwr cadw tŷ wedi ei gloi ar wahanol adegau yn ystod ein harolygiad. Cyngorwyd gennym hefyd y dylai'r drws fod wedi ei gloi bob amser pan nad oes unrhyw un yn goruchwyllo'r ystafell, er mwyn atal mynediad heb awdurdod at sylweddau costig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion sut y mae'n bwriadu sicrhau gwahaniad mwy eglur o ddyletswyddau rhwng cyfrifoldebau cadw tŷ a thrin bwyd. Hefyd, mae angen manylion sut y bydd yn sicrhau bod oriau digonol wedi'u neilltuo i waith cadw tŷ ar Ward Trefynwy i alluogi'r staff i gyflawni eu dyletswyddau bob amser.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y darperir amserlenni glanhau ysgrifenedig eglur a chynhwysfawr ar gyfer y ward. Mae hyn fel ffordd o sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu diogelu rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellid eu hatal.

Maetheg a hydradiad

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynorthwyo a'u monitro'n briodol yn ystod amser bwyd ac roedd dŵr ar gael ac o fewn cyrraedd rhwydd bob amser. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau y rhoddwyd digon o amser i'r cleifion fwyta eu prydau.

Edrychwyd ar nodiadau tri o gleifion i ganfod sut yr oedd y staff yn cofnodi faint o fwyd a hylif yr oeddent wedi eucymryd. O ganlyniad, roeddem yn gallu cadarnhau bod asesiadau risg maetheg ar waith ond nad oeddent bob amser yn cael eu cwblhau'n llawn. Hefyd, canfuwyd gennym fod asesiadau risg o'r fath yn bodoli mewn dwy ffeil ar wahân, a allai arwain at ddryswch o ran pa un oedd y fersiwn gyfredol i gynorthwyo i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, dynododd sgysiau gyda'r staff fod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu.

(Gweler hefyd yr hyn y mae angen ei wella o dan y pennawd 'Cadw cofnodion' ar dudalennau 20–1.)

Cadarnhaodd sgysiau gyda chleifion fod y prydau'n amrywiol; roedd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn (e.e. "rhagorol" a "coginio cartref"). Gwelsom fod cleifion yn cael eu helpu i eistedd yn gyfforddus ac yn unionsyth i fwyta eu prydau bwyd a bod pecynnau llieiniau dwylo gwlyb ar gael i gleifion sychu eu dwylo cyn bwyta.

Roedd y bwyd yn edrych yn flasus ac yn cael ei weini'n brydlon i'w atal rhag mynd yn oer.

Rheoli meddyginiaethau

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, a chanllawiau rheoleiddio a phroffesiynol/lleol o ran yr agwedd hon ar ofal a thriniaeth cleifion. Er enghraifft, gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion i gymryd eu meddyginiaeth presgripsiwn, edrychwyd ar sampl o siartiau meddyginiaeth y cleifion, a chafwyd sgwrs gyda'r staff am eu dealltwriaeth o'r polisi meddyginiaeth a gytunwyd yn lleol, gan ganfod bod pwyslais ar sicrhau bod gan gleifion y feddyginiaeth gywir ar y dos cywir ar yr adeg gywir.

Hefyd, clywsom nyrs gofrestredig yn esbonio gweithdrefnau meddyginiaeth yn llawn i nyrs dan hyfforddiant, gan ateb cwestiynau mewn ffordd ddigynnwrf ac eglur. Canmolwyd tîm y ward am hyn.

Fodd bynnag, nodwyd yr angen gennym am welliant i agweddau ar reoli meddyginiaethau, sef:

- Nid oedd y ffordd yr oedd cyffuriau a reolir wedi eu cofnodi yn y gofrestr cyffuriau a reolir ar gyfer cleifion unigol yn eglur. Yn benodol, gwelsom gofnodion cyffuriau yn ymwneud â dau glaf ar yr un dudalen, yn ogystal â chofnodion diweddarach ar gyfer un o'r cleifion hynny wedi eu hychwanegu ar y llinellau uwchben y cofnodion gwreiddiol. Roedd hyn yn creu dryswch o ran cydbwysedd stoc a'r trywydd archwilio angenrheidiol.
- Roedd nodiadau un claf yn dangos y bu oedi cyn cael gafael ar fath newydd o feddyginiaeth presgripsiwn (ar lafar y tu allan i oriau). Bu'n rhaid i'r claf aros felly tan oedd meddyg teulu wedi ymweld â'r ward y diwrnod canlynol.
- Amlygodd trafodaethau gyda staff y ward bod oedi yn aml cyn cael gafael ar feddyginiaeth cleifion i fynd â hi adref, a oedd yn arwain at oedi cyn eu rhyddhau o'r ysbyty.

Tynnwyd sylw rheolwr y ward ac uwch-reolwr at y materion uchod felly, a chynlluniwyd rhywfaint o gamau gweithredu erbyn diwedd yr ymweliad arolygu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n briodol a bod cleifion yn derbyn meddyginiaeth presgripsiwn heb oedi. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i atal oediadau cyn i gleifion dderbyn eu meddyginiaeth ar yr adeg rhyddhau o'r ysbyty.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Datgelodd sgysiauw gyda nifer bach o gleifion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd y ward. Dangosodd y staff hefyd eu dealltwriaeth lafar o broses ddiogelu Cymru gyfan.

Canfuwyd gennym hefyd bod gan y cleifion fynediad at eiriolwyr allanol yn ôl yr angen.

Roedd yn amlwg bod gan staff y ward ddealltwriaeth dda iawn o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r defnydd o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod oediadau cyn derbyn asesiadau budd pennaf yn parhau i fod yn her. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn her hysbys i holl fyrddau iechyd Cymru.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

O archwilio cofnodion tri o gleifion ac arsylwi'r unigolion dan sylw, roeddem yn gallu cadarnhau bod meddyginiaeth lladd poen wedi cael ei rhoi yn unol â'r presgripsiwn; roedd yn ymddangos bod pob unigolyn yn gyfforddus pan aethpwyd ato.

Dangosodd trafodaethau gyda'r nyrs gofal lliniarol arbenigol (a gyflogir gan Hosbis Dewi Sant ond sydd wedi ei lleoli yn Ysbyty Dyffryn Mynwy) fod cyfathrebu am gleifion gyda staff ar y ward yn effeithiol iawn. Fe'n hysbyswyd hefyd bod gan y ward fynediad at gyngor gofal lliniarol arbenigol 24 awr y dydd a bod problemau'n cael eu huwchgyfeirio i feddyg ymgynghorol yn ôl y gofyn.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesedd

Canfuwyd gennym fod cyfres o weithgareddau archwilio a oedd wedi'i hen sefydlu ac yn amrywiol ar waith, yn gysylltiedig ag agweddau ar y ddarpariaeth o ofal i gleifion. Roedd y rhain yn ymwneud ag:

- Agweddau ar reoli cyffuriau a reolir (Ebrill 2017)
- Archwiliadau ansawdd ym maes gofal iechyd, a oedd yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth o ofal i gleifion yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal (Mai 2017)
- Y defnydd o fandiau arddwrn i sicrhau bod cleifion yn cael eu hadnabod yn iawn (Mai 2017)
- Archwiliad clychau galw cleifion, a oedd yn sicrhau bod yr holl offer yn gweithio'n iawn i gynorthwyo cleifion a oedd yn gofyn am gymorth ac i hybu eu hurddas a'u hannibyniaeth (Mai 2017)
- Offeryn asesu dementia a gwblhawyd (a oedd yn cynnwys nodi cleifion â'r cyflwr hwn, addasrwydd amgylchedd y ward a rhannu gwybodaeth i sicrhau diogelwch cleifion) (Mai 2017)

Ym mhob achos, ni nodwyd unrhyw beth y mae angen ei wella o'r uchod, sy'n dynodi bod tîm y ward yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i sicrhau'r ddarpariaeth o ofal diogel, tosturiol ac effeithiol.

Cadw cofnodion

Canfuwyd gennym fod gan y staff fynediad rhwydd at gofnodion y cleifion, a oedd wedi eu storio'n ddiogel ar y ward. Canfuwyd gennym yn gyffredinol hefyd bod staff y ward ac aelodau eraill y tîm amlddisgyblaeth yn cofnodi sut yr oedd penderfyniadau yn ymwneud â gofal cleifion yn cael eu gwneud. Fodd bynnag, nodwyd yr angen am y gwelliannau canlynol gennym:

- Roedd nodiadau nyrsio a nodiadau achosion meddygol yn cynnwys llawer o waith papur rhydd. Gallai hyn arwain at golli gwybodaeth allweddol am gleifion.
- Roedd asesiadau risg cleifion yn wag neu'n anghyflawn. Nid oedd yn eglur felly pa un a oedd eu hangen o gwbl.
- Roedd angen mwy o fanylion yng nghynlluniau gofal cleifion i adlewyrchu anghenion a dymuniadau unigol y cleifion.

- Roedd asesiadau risg wedi eu hailadrodd mewn dwy ffeil ar wahân, a allai achosi dryswch o ran darparu gofal.
- Nid oedd staff y ward yn eglur am ba ddogfennau y dylid eu defnyddio i gofnodi gofal diwedd oes ar ôl i newidiadau gael eu cyflwyno ar sail Cymru gyfan ym mis Mawrth 2016.
- Mewn achosion lle mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn cofnodi sut y maent wedi cynorthwyo cleifion, nid oedd cofnodion o'r fath wedi eu cydlofnodi gan nyrs gofrestredig sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu gofal. Hefyd, nid oedd y staff bob amser yn ysgrifennu eu swyddogaeth glinigol nesaf at eu cofnodion. Gallai hyn greu problemau o ran gweithgarwch archwilio clinigol ac ar adegau pan fydd pryderon llafar neu ysgrifenedig yn cael eu codi am y ddarpariaeth o wasanaethau.

Fodd bynnag, gwelsom rai enghreifftiau gwych o hanesion bywyd cleifion. 'Eich safbwynt' oedd enw'r rhain ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn i'r staff o ran yr hyn y mae cleifion yn ei hoffi, yr hyn nad ydynt yn ei hoffi, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Canmolwyd y ward am hyn fel sail ar gyfer darparu gofal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r broses cadw cofnodion ar Ward Trefynwy yn unol â chanllawiau clinigol/proffesiynol. Mae hyn oherwydd bod cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro eiberfformiad ei hunan ochr yn ochr â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuwyd tystiolaeth gennym o drefniadau rheoli ac arweinyddiaeth cryf a chyson ar y ward ac ar draws gyfleuster gofal integredig Dyffryn Mynwy. Arweiniodd hyn at ddiwylliant staff cadarnhaol a pharodrwydd eglur i ddatblygu'r gwasanaethau a gynigir ymhellach.

Fodd bynnag, nodwyd yr angen gennym am welliant i elfennau o hyfforddiant staff.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuwyd tystiolaeth gennym o reolaeth ac arweinyddiaeth gref a chyson ar Ward Trefynwy a chan y tîm iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ehangach sydd wedi'i leoli yn y cyfleuster. Roedd rheolwr y ward a'r dirprwy hefyd yn gallu gweithio ar sail ychwanegol am gyfran o amser bob wythnos. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cael eu cynorthwyo'n dda i ddarparu gofal diogel, effeithiol a thosturiol i gleifion.

Cawsom sgwrs hefyd gyda rheolwr y gwasanaethau integredig, a ddisgrifiodd yn eglur y gwerthoedd a'r dulliau gofal a anogir yn y cyfleuster. Roedd y tîm arolygu hefyd yn gallu cadarnhau bod y staff yn rhoi parch a chefnogaeth i'w gilyddac i'r cleifion a'u teuluoedd hefyd. Hefyd, rhoddodd rheolwr y gwasanaethau integredig fanylion dull gofal a fyddai'n cael ei fabwysiadu yn Nyffryn Mynwy, o'r enw 'Ymgyrch John'.¹Roedd y dull ar ei gamau cynnar, ond

¹Sefydlwyd Ymgyrch John ym mis Tachwedd 2014. Mae ei datganiad o ddiben syml wedi ei seilio ar y gred y dylid croesawu gofalwyr, a bod cydweithrediad rhwng cleifion a phawb sy'n

byddai'n cael ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gwybyddol a synhwyrdd y cleifion mewn ffordd well. Byddai hyn yn cael ei wneud trwy wella cyfranogiad teuluoedd mewn gofal, gwell gwybodaeth i gleifion (llafar ac ysgrifenedig), a datblygu pasbort gofalwyr a fyddai'n galluogi teuluoedd i gynorthwyo gyda gofal cleifion (trwy gytundeb gyda'r claf). Y canlyniad a fwriadwyd o'r uchod oedd hybu llesiant cleifion, gyda phwyslais ar fodel gofal mwy cymdeithasol, i baratoi ar gyfer rhyddhad effeithiol.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn gweithio ar y ward a'u bod yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau priodol. Hefyd, dywedodd staff a gwblhaodd holiadur AGIC fod eu rheolwr bob amser yn eu hannog i weithio fel tîm ac yn darparu adborth eglur a defnyddiol ar eu gwaith fel rheol.

Dywedodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiadur hefyd y gellid dibynnu ar eu rheolwr bob amser i'w helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith a'i fod hefyd yn gefnogol.

Gwnaeth un aelod o staff y sylw canlynol am y rheolwyr sy'n gweithio yn yr ysbyty:

"Mae fy rheolwyr ward yn weithredol iawn a bob amser yno i siarad â nhw o dan amgylchiadau proffesiynol/personol."

Dynododd sgysiaid gyda rheolwr y ward fod cyfarfod staff yn cael ei gynnal bob chwech i wyth wythnos fel modd o rannu diweddariadau diogelwch a gwybodaeth glinigol berthnasol arall. Fe'n hysbyswyd hefyd y gallai fformat cyfarfodydd o'r fath gael ei addasu yn y dyfodol agos i ddarparu hyfforddiant penodol i'r staff fel ffordd o ddatblygu a gwella eu sgiliau ymhellach.

gysylltiedig â nhw yn hanfodol i'w hiechyd a'u llesiant. Mae Ymgyrch John yn berthnasol i bob lleoliad ysbyty – aciwt, cymuned ac ieuchyd meddwl – a gallai ei hegwyddorion ymestyn i'r holl sefydliadau gofalu eraill lle mae pobl yn byw oddi wrth y rheini sydd agosaf atynt. <http://johnscampaign.org.uk/#/>

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Cynigiodd chwe holiadur staff AGIC, wedi'u cwblhau gan bobl yn gweithio mewn amrywiaeth o swyddi, adborth cadarnhaol ar hyfforddiant, y gofal a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty a rheolaeth y sefydliad.

Gwnaeth un aelod o staff y sylw canlynol:

“Rwyf wrth fy modd yn gweithio yn Nyffryn Mynwy ar Ward Trefynwy.”

Nid oedd unrhyw nyrsys cronfa yn gweithio ar y ward ar ddiwrnod yr arolygiad, ond fe'n hysbyswyd y bu angen staff o'r fath yn weddol reolaidd i sicrhau bod anghenion y cleifion yn cael eu diwallu. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod yr un staff cronfa yn cael eu neilltuo i'r ward at ddibenion parhad. Anaml y defnyddiwyd staff asiantaeth. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal gan staff a oedd yn gyfarwydd iddynt ac yn gyfarwydd â phrosesau gwaith a dulliau gofal y ward.

Dywedodd mwyafrif y staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cwblhau hyfforddiant (ar-lein yn bennaf) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ar bynciau fel iechyd a diogelwch, diogelwch tân, rheoli heintiau, dementia/deliriwm, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (y Ddeddf Galluedd Meddylol). Fodd bynnag, dywedodd un aelod o staff y byddai'n elwa o fwy o hyfforddiant o ran gofal dementia. Roedd hyn mewn ymateb i anghenion a nodwyd llawer o gleifion sy'n derbyn gofal ar Ward Trefynwy.

Nodwyd gennym hefyd yr angen am hyfforddiant strwythuredig ar gyfer y staff ar ddefnyddio dogfennau diwedd oes newydd (ar ôl 2016) a'r defnydd o offer fel gyrwyr chwistrell² i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn hyderus o ran diwallu anghenion cleifion sy'n derbyn gofal diwedd oes/lliniarol. Hefyd, er i ni dderbyn gwybodaeth a oedd yn dangos bod staff y ward yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant iechyd a diogelwch, dim ond cydymffurfiad rhannol oedd o ran

²Mae gyrwyr chwistrell yn helpu i leihau symptomau cleifion trwy ddarparu llif cyson o feddyginiaeth wedi ei chwistrellu yn barhaus o dan y croen. Fe'i gelwir yn drwyth isgroenol parhaus weithiau.

diogelwch tân, diogelwch personol, a hyfforddiant symud a thrin. Hysbyswyd yr uwch-reolwyr gennym hefyd am yr angen i ystyried anghenion hyfforddiant cyffredinol staff yn y maes hwn o ystyried anghenion cymhleth ac amrywiol y boblogaeth gleifion.

Amlygodd trafodaethau gyda staff y ward fod y ward wedi elwa'n ddiweddar o gynnydd i nifer y gweithwyr cymorth gofal iechyd (2.9 cyfwerth ag amser llawn); roedd disgwyl i nyrs gofrestredig ymuno â'r tîm o fewn mis hefyd. Cyflawnwyd hyn trwy ystyried ac archwilio lefel a math y gofal sydd ei angen yn gyffredinol ar gleifion ar y ward. Byddai'r cynnydd i nifer y staff yn arwain at ryddhau amser nyrsys cofrestredig felly, er mwyn mynd i'r afael â chydgyssylltiad gofal y cleifion. Hefyd, byddai mwy o weithwyr cymorth gofal iechyd i ddiwallu agweddau ar anghenion cymorth y cleifion.

Darparwyd copi o archwiliad addysgol allanol a gwblhawyd ar 13 Ebrill 2017 i ni, yr oedd ei ganlyniadau yn nodi dau beth roedd angen eu gwella yn unig. Roedd y rhain yn ymwneud â'r:

- Angen am lefelau mentoriaeth cynyddol yn y maes clinigol
- Yr angen am becyn ymsefydlu wedi'i deilwra ar gyfer myfyrwyr nyrsio

Roedd sgysiau gyda rheolwr y ward am yr archwiliad uchod yn dynodi bod gwaith wedi hen gychwyn i fynd i'r afael â'r ddau fater. Roedd gweddill yr archwiliad yn cynnwys llawer o sylwadau cadarnhaol ar weithrediad a rheolaeth y ward o ddydd i ddydd, ac yn enwedig ei bod yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu i fyfyrwyr nyrsio, sydd wedi teimlo iddynt gael cefnogaeth dda hyd yn hyn. Byddai lleoliadau o'r fath yn parhau felly.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn gwerthusiad blynyddol o'u gwaith, ond nad oedd ganddynt gyfle ar gyfer goruchwyliaeth ffurfiol un i un. Llwyddasom i gadarnhau bod rheolwr y ward a'r dirprwy yn cymryd rhan ymarferol yn y ddarpariaeth o ofal a'u bod bob amser yn gwneud amser i siarad â'r staff pan ofynnir iddynt. Fodd bynnag, efallai yr hoffai'r bwrdd iechyd ystyried diwygio trefniadau cymorth staff i gynnig cyfleoedd mwy rheolaidd i rannu gwybodaeth ac i wrando ar eu syniadau a'u safbwyntiau ar y ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion.

Canfuwyd gennym fod tîm y ward yn gweithredu mewn diwylliant cadarnhaol, a bod pwysigrwydd hynny'n cael ei annog gan reolwr y ward, y dirprwy a'r uwch-reolwyr. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn elwa o dîm clinigol a oedd yn ceisio gwneud pethau'n well yn gyson a dysgu o unrhyw gamgymeriadau sy'n cael eu gwneud.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod y staff yn gallu cwblhau hyfforddiant gorfodol a'u bod yn derbyn hyfforddiant penodol o ran y ddarpariaeth o wasanaethau gofal lliniarol i gleifion.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau, maent wedi'u nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'n berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweilli gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae gennym amrywiaeth o ddulliau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethiad a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn ysbytai.

Ceir rhagor o fanylion am [sut y mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y claf	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty:

Ward/adran:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu am y camau brys y maent yn eu cymryd.

Gwelliant uniongyrchol sydd ei angen	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau uniongyrchol gennym yn yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd ag atebolrwydd a chyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella'n cael ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: **Ysbyty Dyffryn Mynwy**
 Ward/adran: **Trefynwy**
 Dyddiad yr arolygiad: **26 Mehefin 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Ni nodwyd unrhyw welliannau gennym o ran y maes gofal hwn.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau y dilyniad arfer gorau wrth reoli a lliniaru risgiau yn y dyfodol. Mae hyn mewn ymateb i sylwadau'r staff ar yr angen am well adborth yn dilyn digwyddiadau clinigol neu bryderon/cwynion.	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	Ceir trafodaethau ac adborth mewn cyfarfodydd ansawdd a diogelwch cleifion lleol (trwy rannu ar y cyd) a thrwy'r 'grŵp pryderon'. Mae cynllun cyfathrebu gwell wedi'i gychwyn â'r holl staff, sy'n cynnwys cyfarfodydd misol i drafod materion perthnasol ac i ddarparu adborth ar gyfer tîm y ward.	Rheolwr Gwasanaethau Integredig a Rheolwr y Ward	Ar unwaith
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC ar y camau a gymerwyd/i'w cymryd o ran atal	2.2 Atal niwed pwysu a meinwe	Mae pwysigrwydd cwblhau bwndeli croen wedi'i bwysleisio eto i'r holl staff ac mae	Rheolwr	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
a rheoli niwed meinwe yng nghyswllt cleifion. Mae hyn yn ymwneud â'r pwyntiau a amlygir ar dudalennau 15 ac 16 yr adroddiad hwn.		anghenion hyfforddi wedi'u nodi a'u diwallu. Mae pwysigrwydd cwblhau dogfennau SBAR a chofnodion Datix ar gyfer unrhyw wiser pwyso Gradd 3 neu'n uwch wedi'i bwysleisio i'r staff. Bydd archwiliad o ddogfennau yn cael ei gynnal o fewn tri mis o ran niwed pwyso er mwyn sicrhau bod staff yn parhau i gydymffurfio. Caiff pob niwed pwyso Gradd 3, 4 a heb radd ei drafod mewn cyfarfodydd gwir achos misol gyda'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal Briwiau Pwyso. Caiff unrhyw wersi a ddysgir o'r cyfarfodydd hyn eu rhannu gyda'r ward. Mae gan bob gwely ar y ward fatresi lleddfu pwysau a chaiff cleifion eu hasesu'n unigol o ran pa lefel o fatres sydd ei hangen. Caiff pob matres a chlustog ei wirio bob wythnos fel rhan o amserlen lanhau wythnosol y ward. Mae rheolwr y ward wedi ailadrodd y broses o gael gafael ar fwy o offer lleddfu pwysau y tu allan i oriau os oes angen. .	Gwasanaethau Integredig a Rheolwr y Ward	
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion sut y mae'n bwriadu sicrhau gwahaniad mwy eglur o	2.4 Atal a rheoli heintiau a	Mae'n rhaid i staff o bob lefel ar yr uned	Rheolwr	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ddyletswyddau rhwng cyfrifoldebau cadw tŷ a thrin bwyd. Hefyd, mae angen manylion sut y bydd yn sicrhau bod oriau digonol wedi'u neilltuo i waith cadw tŷ ar Ward Trefynwy i alluogi'r staff i gyflawni eu dyletswyddau bob amser. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau y darperir amserlenni glanhau ysgrifenedig eglur a chynhwysfawr ar gyfer y ward i staff cadw tŷ. Mae hyn fel ffordd o sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu diogelu rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellid eu hatal.	dadheintio	ymgymryd â chyfrifoldebau trafod bwyd a glanhau. Mae rheolwr y ward wedi sicrhau bod hyfforddiant rheoli heintiau a thechnegau golchi dwylo'r staff yn gyfredol. Mae pwysigrwydd gwisgo a diosg menig a dillad amddiffynnol personol eraill ar amserau priodol pan fyddant yn rhoi gofal i gleifion wedi'i bwysleisio. Mae amserlen lanhau wedi'i datblygu bellach a'i rhoi ar waith gan reolwr y ward, a fydd yn monitro'r gydymffurfiaeth bob wythnos. Bydd oriau cadw tŷ yn cael eu cynnwys ar y rhestr waith electronig er mwyn sicrhau bod gan staff ddigon o amser wedi'i bennu i gyflawni dyletswyddau cadw tŷ. Bydd Olwyn Archwilio'r Safonau Gofal Iechyd yn cael ei mabwysiadu yn yr uned, a fydd yn sicrhau bod pob archwiliad yn cael ei gwblhau mewn modd amserol. Bydd hon yn cael ei dangos wrth fynedfa'r ward er mwyn sicrhau cleifion/staff o gydymffurfiaeth. Bydd rowndiau amgylcheddol misol, a gynhelir ar y cyd gyda'r uwch-nyrs a'r nyrs rheoli heintiau, yn asesu'r ward er mwyn	Gwasanaethau Integredig a Rheolwr y Ward	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sicrhau y cedwir amgylchedd glân ar bob adeg a bod safonau rheoli heintiau yn cael eu cynnal.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu cofnodi'n briodol a bod cleifion yn derbyn meddyginiaeth presgripsiwn heb oedi. Mae hefyd yn ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i atal oediadau cyn i gleifion dderbyn eu meddyginiaeth ar yr adeg rhyddhau o'r ysbyty.	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Mae archwiliadau cyffuriau a reolir blynyddol wedi'u cynnal a chynllun gweithredu lleol wedi'i gwblhau a'i roi ar waith. Argymhellodd archwiliad diweddar y dylid gwneud dau gofnod dogfennol yn y gofrestr cyffuriau a reolir – un ar gyfer meddyginiaethau'r cleifion eu hunain y maen nhw wedi dod gyda nhw ac un ar gyfer meddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi pan fyddant ar y ward. Mae hyn yn cael ei adolygu a'i fonitro fel proses beilot ar gyfer Dyffryn Mynwy. Mae rheolwr y ward wedi cytuno â'r fferyllfa y bydd ceisiadau ar gyfer meddyginiaethau i fynd adref â nhw yn cael eu hanfon i'r fferyllfa 48 awr cyn i'r cleifion gael eu rhyddhau er mwyn osgoi oediadau ar yr adeg rhyddhau. Bydd y ffordd newydd hon o weithio yn cael ei hadolygu ar ôl tri mis er mwyn gweld pa mor effeithiol yw hi. Bydd rheolwr y ward/uwch-nyrs yn trafod	Fferyllfa a Rheolwr y Ward	Tri mis Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		â meddygon teulu sut i reoli newidiadau mewn meddyginiaeth a ragnodir ar lafar gan feddygon y tu allan i oriau er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu gweinyddu'n amserol.		
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud i'r broses cadw cofnodion ar Ward Trefynwy yn unol â chanllawiau clinigol/proffesiynol. Mae hyn oherwydd bod cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.	3.5 Cadw cofnodion	Bydd yr holl staff yn mynychu hyfforddiant ar gadw cofnodion. Bydd archwiliad o ddogfennau gan ddefnyddio Offeryn Archwilio'r Safonau Gofal Iechyd yn cael ei gynnal yn ystod y tri mis nesaf gan yr uwch-nyrs. Bydd prif nyrs y ward yn ailgyflwyno rowndiau bwriadol i staff y ward. Mae rowndiau bwriadol yn fenter trawsnewid gofal i wella gofal sy'n canolbwyntio ar y claf yn seiliedig ar hanfodion gofal. Bydd sylw penodol yn cael ei roi i ddogfennau yn ystod y cyfnod hwn.	Uwch-nyrs a Rheolwr y Ward	Tri mis
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddisgrifio'r camau a gymerwyd/i'w cymryd i sicrhau bod y staff yn gallu cwblhau hyfforddiant gorfodol a'u bod yn derbyn hyfforddiant penodol o ran y ddarpariaeth o wasanaethau gofal lliniarol i gleifion.	7.1 Y gweithlu	Mae Ward Trefynwy yn monitro cydymffuriad bob mis trwy fatrics hyfforddi lleol. Cysylltu â'r tîm iechyd a diogelwch i drefnu diwrnodau cwrdd i ffwrdd lleol, a fydd yn galluogi'r staff i fodloni gofynion hyfforddi gorfodol.	Rheolwr Gwasanaethau Integredig a Rheolwr y Ward	Ar unwaith

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd amser hyfforddi gwarchodedig yn cael ei gynnwys ar y rhestr waith fel cam gweithredu ar unwaith. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro bob mis a'i hadolygu'n rheolaidd yn y grŵp ansawdd a diogelwch cleifion lleol. Bydd hyfforddiant dementia a gofal lliniarol lleol yn cael ei ddarparu a'i werthuso o fewn tri mis.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Eve Parkinson / Sian Thomas

Swydd: Rheolwr Gwasanaethau Integredig / Uwch-nyrs

Dyddiad: 8 Awst 2017

